## Cofnodion cyfarfod y

# Grŵp Trawsbleidiol ar y cyd ar Anabledd ac Awtistiaeth

## a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020 am 12.15-13.15 yn y Pierhead, Stryd y Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF10 4PZ

**Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Mark Isherwood AC**

1. **Croeso a chyflwyniadau.**

Agorodd Mark Isherwood (MI) y cyfarfod a chroesawodd aelodau'r ddau grŵp trawsbleidiol.

2. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y ddau grŵp trawsbleidiol yn gywir.

**Cynigiwyd gan**: Jeff Price (y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth)
**Eiliwyd gan**: Mark Isherwood

Nodwyd bod pob cam gweithredu wedi'i gymryd.

3. **Cyflwyniad: Prosiect *Engage to Change* – y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gan Dr Steve Beyer, Prifysgol Caerdydd**

Prosiect dros bum mlynedd yw *Engage to Change*, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Gymuned y Loteri Genedlaethol i helpu pobl ifanc sydd ag anabledd dysgu a phobl ifanc awtistig i mewn i fyd gwaith cyflogedig. Anabledd Dysgu Cymru sy'n arwain ar y prosiect, tra bod ELITE ac Agoriad Cyf yn bartneriaid a fu'n cefnogi asiantaethau cyflogaeth i gynnig hyfforddiant mewn swyddi, lleoliadau gwaith â thâl a swyddi cyflogedig mewn gweithleoedd arferol. Maent wedi'u cefnogi gan hunan-eiriolwyr o fudiad Pobl yn Gyntaf Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ym

Mhrifysgol Caerdydd sy'n arwain ar yr agwedd ar y prosiect sy'n cynnwys gwaith ymchwil.

Rhoddodd Dr Steve Beyer (SB), Prif Ymchwilydd Tîm Gwerthuso *Engage to Change* ym Mhrifysgol Caerdydd, gyflwyniad ar gynnydd y prosiect a'r gwersi sydd wedi'u dysgu hyd yma.

Mae *Engage to Change* wedi dangos y gellir goresgyn llawer o'r heriau sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig drwy gyflogaeth â chymorth gan ddefnyddio hyfforddwyr gwaith. Gall y model hwn helpu pobl i ddod o hyd i swydd drwy:

- dreulio amser yn ceisio deall diddordebau pobl o ran swyddi, yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a pha fath o swydd ac amgylchedd gwaith sydd eu hangen arnynt;
- defnyddio lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith i helpu pobl i benderfynu beth y maent am ei wneud a pha gymorth sydd o bosibl ei angen arnynt;
- dod o hyd i swyddi sy'n diwallu anghenion a thalentau'r unigolyn, a thrafod telerau'r swyddi hynny, yn hytrach na disgwyl i'r unigolyn gymryd unrhyw swydd wag;
- hyfforddi a chefnogi cyflogwyr i sicrhau bod cyfweliadau'n hygyrch a rhannu gwybodaeth am y broses gynefino a'r ffordd orau o oruchwylio cyflogeion; a
- chynnwys pobl a theuluoedd yn y gwaith cynllunio, a helpu gyda budd-daliadau lles i sicrhau ei bod yn fwy manteisiol i bobl fod yn gweithio.

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar bobl i ddysgu prosesau sy'n gysylltiedig â swydd benodol a chadw'r swydd honno drwy gymryd y camau a ganlyn:

- sicrhau bod hyfforddwr swydd yn bresennol gyda'r unigolyn ar y safle i'w helpu i ddysgu prosesau'r swydd ac i deimlo'n gyfforddus;
- rhannu'r swydd yn dasgau llai a chynnig dull systematig o gyflawni'r tasgau hyn;
- ymyrryd mewn modd sensitif yn ôl yr angen i gynnig cymorth, a lleihau'r ymyriadau hyn dros amser hyd nes y bo'r person yn gallu gwneud y swydd yn annibynnol;
- helpu pobl i gael achrediad sy'n seiliedig ar waith lle bo hynny'n bosibl; a

- helpu pobl i deimlo’n gyfforddus yn gymdeithasol yn y gweithle a helpu eu cydweithwyr/rheolwyr i dynnu ymlaen yn dda â nhw.

Erbyn mis Rhagfyr 2019, roedd y model hwn wedi helpu partneriaid ym mhrosiect *Engage to Change* i gefnogi 284 person ifanc i gael lleoliadau gwaith â thâl o hyd at chwe mis, gyda 166 o’r lleoliadau hyn yn arwain at swyddi cyflogedig. Mae 77 y cant o’r swyddi hyn wedi parhau am o leiaf tri mis. O ystyried pa mor isel yw’r gyfradd gyflogaeth genedlaethol ar gyfer y bobl ifanc hyn, mae’r ffigurau hyn yn galonogol iawn.

Mae’r prosiect wedi dangos y gall nifer o bobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig weithio os oes ganddynt y swyddi cywir a’r gefnogaeth gywir. I fod yn llwyddiannus, mae angen sicrhau ymrwymiad i:

- sicrhau bod y swyddi’n rhai ‘go iawn’, y byddent fel arall yn cael eu gwneud gan gyflogeion eraill;
- sicrhau bod y swyddi wedi’u lleoli mewn lleoliadau gwaith arferol ochr yn ochr â chydweithwyr a rheolwyr nad oes ganddynt anableddau;
- talu cyflogau sy’n cyfateb â’r cyfraddau arferol ar gyfer y swydd dan sylw;
- alinio talentau ac anghenion yr unigolyn â’r swydd y bydd yn ei gwneud;
- nodi pwysigrwydd hyfforddiant a chymorth ar y safle; a
- sicrhau bod cyflogwyr yn egluro eu safonau gwaith ac yn helpu cyflogeion i gyrraedd y safonau hyn.

Mae’n bwysig cydnabod nad yw hi bob amser yn bosibl dod o hyd i swydd gyflogedig i bawb. Gall hyn fod oherwydd nid yw’n ddichonadwy yn economaidd i rai pobl neu oherwydd ein bod wedi methu â dod o hyd i swydd sy’n cyd-fynd â thalentau ac anghenion unigolyn penodol, neu’n syml oherwydd nid ydynt yn gallu darparu’r cymorth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi pam nad ydym yn gallu cael swyddi i rai pobl. Nid yw’n deg dweud na all person anabl weithio os taw diffyg cymorth neu’r amgylchiadau penodol sydd, mewn gwirionedd, yn gyfrifol.

Mae cyflogwyr sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect wedi cydnabod

nad perfformio tasgau yw’r unig ffordd y gall pobl gyfrannu’n llwyddiannus at eu busnesau: gallant hefyd gyfrannu at gydlyniad y gweithle a chynhyrchiant gweithwyr eraill. Mae’r prosiect wedi dangos y gall cynnig amser ychwanegol ar gyfer hyfforddi a chefnogi pobl anabl arwain at fuddion clir i gyflogwyr, gan gynnwys cyflogeion dibynadwy ac ymroddedig, gweithlu mwy amrywiol a delwedd gadarnhaol o ran cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Mae’n rhaid ymgorffori’r gwersi sy’n deillio o brosiect *Engage to Change* mewn polisi a gweithdrefnau ledled Cymru:

- mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydnabod y manteision o ran busnes, y manteision cymdeithasol a’r manteision economaidd a ddaw yn sgil gweithlu amrywiol, gan hyrwyddo’r manteision hyn mor eang â phosibl;
- mae angen meithrin dealltwriaeth o’r hyn a olygir gan ‘gymorth wedi’i deilwra at yr unigolyn’ a faint y mae hyn yn ei gostio;
- mae’n rhaid ariannu cyflogaeth â chymorth a hyfforddiant yn ddigonol ac, yn ddelfrydol, ymgorffori hyn mewn deddfwriaeth fel model o gymorth i mewn i gyflogaeth sydd wedi’i deilwra at yr unigolyn; er enghraifft, drwy sefydlu gwasanaeth hyfforddiant swyddi i Gymru;
- dylid defnyddio’r rhaglen Mynediad i Waith i’r eithaf fel cyllideb gymorth hyblyg sy’n gallu sicrhau chwarae teg i bobl anabl;
- dylid creu cyfleoedd wedi’u teilwra am brofiad gwaith â chymorth tra bod pobl ifanc yn dal mewn addysg, gyda’r nod o bontio i gyflogaeth â thâl yn y dyfodol.

Mae cyflwyniad Dr Beyer ar gynnydd y prosiect ar gael ar wefan *Engage to Change* yn Gymraeg a Saesneg: [http://www.engagetochange.org.uk/article/engage-to-change-progress-so-far-and-what-weve-learned/](http://www.engagetochange.org.uk/article/engage-to-change-progress-so-far-and-what-weve-learned/).

Sylwadau:
Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd SB ni ellir defnyddio cyllid Mynediad i Waith i ariannu hyfforddiant swyddi oherwydd ni eillir ei ddefnyddio i dalu am gymorth cyn cyflogaeth.

Hefyd, er ei fod yn cytuno y dylai hyfforddiant sgiliau ddechrau tra bod person ifanc yn dal mewn addysg, eglurodd fod natur

anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn golygu nad oes bob amser modd trosglwyddo sgiliau i'r gweithle, felly mae'n bwysicach cael hyfforddiant yn y gweithle.

**4. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru – Cymorth i gwsmeriaid awtistig Cyflwyniad gan Caroline Noot a Lynda Ormerod**

Cafwyd cyflwyniad gan Caroline Noot (CN) a Lynda Ormerod (LO), Cynghorwyr Arweiniol Cyflogaeth i Bobl Anabl yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ledled Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi cwsmeriaid awtistig.

O 1 Ebrill 2019, Cafodd rôl y Cynghorwr Arweiniol Cyflogaeth i Bobl Anabl ei chyflwyno mewn prosiect dros gyfnod o ddwy flynedd fel rhan o Bapur Gwyrdd y Llywodraeth i gefnogi cwsmeriaid sy'n wynebu salwch neu sydd ag anableddau yn ôl i fyd gwaith.

Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar reoli tîm o Gynghorwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl, sy'n hyfforddi a chefnogi Hyfforddwyr Gwaith i gynnig gwasanaeth o'r radd flaenaf i hawlwyr sydd â chyflyrau iechyd neu anabledd sy'n amharu ar eu gallu i ddod o hyd i gyflogaeth a chadw swydd.

Siaradodd CN a LO am y gwaith o ddatblygu cymorth o ran awtistiaeth i gwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau yn Ne Cymru, gan nodi'r camau gweithredu a ganlyn:

- datblygu ac ehangu'r gwaith i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth sydd yn barod yn cael ei wneud yn ne-orllewin Cymru;
- creu dull safonol o ran awtistiaeth ar draws pob Canolfan Gwaith;
- sicrhau bod y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn cael ei haddasu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid awtistig;
- cyflwyno oriau tawel yn ystod digwyddiadau a gofodau tawel mewn Canolfannau Gwaith;
- meithrin perthynas â sefydliadau allweddol sy'n cefnogi'r

agenda hon; a

- chreu clybiau gwaith a chlybiau cymdeithasol rhanbarthol i hyrwyddo mynediad at sgiliau gwaith a sgiliau cymdeithasol ar gyfer cwsmeriaid awtistig.

Gwnaethant hefyd drafod y cymorth a'r hyfforddiant sydd wedi'u rhoi i staff, gan gynnwys:

- sesiwn ar namau cudd a gynhaliwyd gan seicolegwyr;
- hyfforddi pob Cynghorydd Cyflogaeth i Bobl Anabl gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a thrafod materion cysylltiedig yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd cenedlaethol;
- cymryd y camau gweithredu a nodwyd gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ar gyfer cynghorwyr cyflogaeth;
- bydd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cefnogi'r Adran Gwaith a Phensiynau yn y gwaith o adolygu'r technegau holi a ddefnyddir i helpu i sicrhau bod pob cyswllt â chwsmer awtistig yn llwyddiannus;
- bydd Cynghorwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl yn gweithredu fel Llysgenhadon Awtistiaeth mewn swyddfeydd a hyrwyddo'r agenda hon ar eu safleoedd; a
- bydd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cynnal sesiynau ar gynadleddau ymgynghorol proffesiynol i drafod achosion ar gyfer Cynghorwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl a Hyfforddwyr Gwaith.

Aethant ymlaen i drafod datblygiad tebyg yng ngogledd Cymru:

- 'Agor drysau' – rhaglen 12 wythnos o hyd yng Nghanolfan Byd Gwaith Llangefni yn Ynys Môn i bobl ifanc awtistig. Mae'r rhaglen hon wedi'i dylunio a'i chynnal gan Gynghorydd Cyflogaeth i Bobl Anabl, ac mae'n trafod llenwi ffurflen gais, sgiliau cyfweliad, magu hyder, rhwydweithio a'r cyfle i gwrdd â chyflogwr;
- mae Canolfan Byd Gwaith Wrecsam yn dechrau cynnig hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, gyda'r nod o sicrhau achrediad ASDinfo Cymru. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws yr holl safleoedd yng

ngogledd a chanolbarth Cymru;
- mae cynlluniau hefyd ar y gweill i gyflwyno hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y Canolfannau Gwasanaethau Credyd Cynhwysol yn Wrecsam a Bangor i gynyddu dealltwriaeth o anghenion cwsmeriaid awtistig pan maent yn cysylltu â staff dros y ffôn.

Daeth CN a LO i ben drwy egluro bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cwblhau hunanasesiad yn ddiweddar a oedd yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:
- ymwybyddiaeth a hyfforddiant;
- yr amgylchedd mewn Canolfannau Gwaith;
- cydweithio rhwng partneriaid a chyflogwyr; a
- phrofiad y cwsmer.

Mae'r casgliadau cynnar yn awgrymu bod tipyn o waith i'w wneud ym mhob un o'r meysydd uchod ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio tuag at lenwi'r bylchau ledled Cymru. Maent yn gweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ar lefel genedlaethol i helpu i ddatblygu achrediad yn benodol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau oherwydd nid ydynt ar hyn o bryd yn gallu gweithio tuag at wneud cais am statws 'cyfeillgar i awtistiaeth'. Yn y cyfamser, maent yn ymdrechu i gyrraedd y safonau a nodir gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth i sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei gynnig i gwsmeriaid ar y sbectrwm awtistiaeth.

Sylwadau:
Mynegwyd pryderon ynghylch dull 'safonol' yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r angen am wasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion unigol. Hefyd, nodwyd bod hyfforddiant ASDInfo yn gallu darparu lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth ond nid yw hyn yn ddigon i alluogi staff i gynorthwyo pobl awtistig i mewn i fyd gwaith. Nid dim ond staff 'blaen tŷ' ddylai bod yn cael eu hyfforddi, ond staff y swyddfeydd cefn, y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac ati.

Eglurodd CN a LO mai'r nod oedd cyrraedd safon ofynnol ar draws pob safle i wella mynediad ar gyfer pobl awtistig - er enghraifft, drwy

gynnig hyfforddiant i staff, gwella'r amgylchedd yn y swyddfa, safon ofynnol o ran cyfathrebu, addasiadau i'r swyddfa ac ati. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fyddai dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael.

## 5. Adroddiad ar raglen Mynediad i Waith gan Gyngor Cymru i'r Deillion – Owen Williams

Cyflwynodd Owen Williams (OW) grynodeb o adroddiad Cyngor Cymru i'r Deillion, [‘How Accessible is Access to Work for people with sight loss in Wales? 3 years on’]. Mae'r adroddiad yn trafod y cynnydd ers yr adroddiad diwethaf yn 2016, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion blaenorol ac ychwanegu nifer o argymhellion newydd neu argymhellion wedi'u haddasu. Er bod pobl anabl, cyflogwyr a sefydliadau trydydd sector yn gyffredinol yn cefnogi'r rhaglen Mynediad i Waith, eglurodd OW fod pobl ddall a phobl rannol ddall wedi codi nifer o faterion wrth geisio cael mynediad at y gwasanaeth.

Caiff yr adroddiad ei rannu'n 5 thema, fel a ganlyn:

1. Cyswllt â chleientiaid
2. Y wybodaeth a ddarperir
3. Sgiliau a dealltwriaeth y cynghorydd
4. Asesiadau
5. Taliadau, adolygiadau a chyllidebau wedi'u personoli.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- ailgyflwyno cynghorwyr penodol;
- dangos mwy o sensitifrwydd at hyblygrwydd a chynaliadwyedd trefniadau ar gyfer contractau;
- cyfathrebu'n well rhwng adrannau;
- darparu gwybodaeth hygyrch;
- gwarchod urddas a chyfrinachedd hawlwyr;
- cynyddu sgiliau ac arbenigedd cynghorwyr;
- adolygu'r polisi ar y dystiolaeth feddygol ar gyfer adnewyddiadau, yn enwedig yn achos cyflyrau/namau gydol oes; a
- chynnal asesiadau yng ngweithle'r person, ac nid dros y ffôn.

Hefyd, pwysleisiodd OW effaith oedi wrth brosesu taliadau. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar rai defnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt a'u gweithwyr cymorth. Hoffai defnyddwyr y gwasanaeth weld system yn cael ei chyflwyno i dalu costau tra bod taliadau'n cael eu prosesu.

Mae'n peri pryder mawr fod 1 o bob 3 pherson a oedd wedi colli eu golwg mewn gwaith ddeng mlynedd yn ôl, ond bod y ffigwr hwn bellach wedi disgyn i 1 o bob 4. Dylai rhaglen Mynediad i Waith helpu pobl anabl i weithio, yn hytrach na chael ei gweld fel un rhwystr arall.

Mae angen gwneud rhagor i gynyddu nifer y bobl sydd wedi colli eu golwg sydd mewn gwaith drwy hyrwyddo'r cynllun, fel y nodwyd yn yr adroddiad 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol'. Er nad oes unrhyw un o swyddogaethau Mynediad i Waith wedi'u datganoli i Gymru, gallai Llywodraeth Cymru, wrth weithio tuag at ei dyhead o gynyddu nifer y bobl anabl mewn cyflogaeth, chwarae rôl wrth ddylanwadu ar newid a chamau i wella, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Sylwadau:

Nododd MI fod ei ferch hynaf wedi cael cymorth drwy Mynediad i Waith a bod y cymorth hwnnw wedi newid ei bywyd.

Pan fo'r rhaglen yn gweithio'n dda, dywedwyd ei bod yn gallu cataleiddio cyflogaeth, ond bod angen iddi gael ei theilwra, ac fe ychwanegwyd bod y rhaglen yn gweithio'n well pan fo un pwynt cyswllt.

Gofynnodd MI a oedd unrhyw bryderon wedi'u mynegi ynghylch pobl hunangyflogedig yn defnyddio'r rhaglen. Atebodd OW fod pryderon o'r fath wedi'u mynegi ond bod cael tîm penodol sydd dim ond yn cefnogi pobl hunangyflogedig wedi bod yn fuddiol oherwydd gellir datblygu perthynas ar lefel fwy personol.

## 6. Cyllid ar gyfer y trydydd sector – Owen Williams

Eglurodd OW fod newidiadau i drefniadau cyllido'r trydydd sector wedi cael effaith sylweddol ar gyrff ambarél fel Cyngor Cymru i'r Deillion, Anabledd Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru. Ers i'r Grant ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy gymryd lle'r Grant Adran 64 yn 2016, ni all sefydliadau'r trydydd sector wneud cais am gyllid craidd mwyach, dim ond cyllid prosiect. Mae symud i ffwrdd oddi wrth gyllid craidd tuag at gyllid prosiect wedi achosi problemau sylweddol ar gyfer cyrff ambarél yng Nghymru oherwydd nid yw'n briodol ail-lunio sefydliad i fodloni meini prawf cynllun cyllid prosiect. Mae hyn yn ei wneud yn anodd iawn i gyrff ambarél barhau i roi gwybodaeth hanfodol a chyfleoedd i rwydweithio i aelodau a rhanddeiliaid, heb sôn am fod yn llais strategol ar y cyd.

Hefyd, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r sefydliadau hyn yn aml gystadlu am gyllid gyda'u haelodau eu hunain, sydd yn amlwg yn gallu bob yn broblemus. Nododd MI ei fod yn ymwybodol bod llawer o sefydliadau lleol a rhanbarthol sydd wedi'u harwain gan ddefnyddwyr bellach yn gorfod cystadlu am gontractau. Yn aml, maent mewn sefyllfa lle nid ydynt yn cael unrhyw gyllid statudol ond mae'r awdurdod lleol yn parhau i gyfeirio achosion atynt. Maent yn awyddus i helpu, ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny.

Mae'r newidiadau hyn o ran cyllid yn bygwth cynaliadwyedd sefydliadau o'r fath, a dyna'r rheswm am yr alwad i ddychwelyd at fodel cyllid craidd sy'n sicrhau bod y sector yn cael ei gydlynu mewn modd strategol a bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed. Gallai cyllid craidd gael ei gynnig ochr yn ochr â chyllid prosiect fel adnodd cyllido ychwanegol.

Nododd MI ei fod wedi dyfynnu o lythyr gan Gyngor Cymru i'r Deillion yn y Siambr wrth drafod pryderon ynghylch cyllid. Diolchodd OW i'r Cadeirydd am ei gefnogaeth.

## 7. Unrhyw faterion eraill

### Methiant Cymorth Swyddi Cymru

Mynegwyd pryderon ynghylch y cyllid a'r arbenigedd o ran gwasanaethau cyflogaeth i bobl anabl a gollwyd yn sgil methiant

Cymorth Swyddi Cymru am yr ail dro. Os mai dim ond sefydliadau cenedlaethol mawr sy'n gallu cystadlu am gontractau, mae yna berygl y bydd gwybodaeth ac arbenigedd lleol yn cael eu colli.

**Adolygiad gofal cenedlaethol o ddarpariaeth ysbytai anabledd dysgu y GIG**

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn trafod y gofal a'r driniaeth a roddir i bobl sy'n gleifion mewnol mewn ysbytai anabledd dysgu y GIG. Gallwch ddarllen yr adroddiad hwn yma: https://llyw.cymru/adolygiad-gofal-cenedlaethol-o-ddarpariaeth-ysbytai-anabledd-dysgu-y-gig.

**Ymgynghoriadau presennol:**

- Rheoli'r broses o bontio rhwng gwasanaethau gofal iechyd i blant a gwasanaethau i oedolion (yn cau ar 20 Ebrill)
- Cynllun gweithredu lleferydd, iaith a chyfathrebu (23 Ebrill)
- Strategaeth yr economi gylchol (3 Ebrill)

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau.

# Camau gweithredu:

**Cam gweithredu 1**: Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddi gefnogi'r model hyfforddi ar gyfer swyddi.

**Cam gweithredu 2:** Ysgrifennu at Weinidog y Deyrnas Unedig ynghylch Mynediad i Waith, gan ddathlu'r cynnydd a wnaed ers 2016 tra'n codi'r materion a nodwyd yn yr adroddiad newydd.

**Cam gweithredu 3**: Ailymweld â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y problemau sy'n parhau ynghylch asesiadau ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol a cheisiadau am y Lwfans Byw i'r Anabl cyn ysgrifennu at Weinidog y DU.

**Cam gweithredu 4:** Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y rhaglen Mynediad i Waith a rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

**Cam gweithredu 5:** Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch pwysigrwydd cyllid craidd ar gyfer y trydydd sector.

**Cam gweithredu 6:** Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn beth fydd yn digwydd nesaf ar ôl i gynllun Cymorth Swyddi Cymru fethu am yr ail dro.